# y dinesydd

Mawrth 2002 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 270


# CÔR CAERDYDD YN DATHLU

Onid yw amser yn hedfan! Mae hynny'n wir wrth i aelodau hen a newydd Côr Caerdydd baratoi i edrych yn ôl ac edrych ymlaen ar ddeng mlynedd o ganu. Ond nid yn unig canu. O'r cychwyn cyntaf bu'n gyfle i ddarpar ŵyr a gwragedd, a oedd yn symud i'r ddinas i weithio ac i fyw gyfarfod a'u gilydd, ond y drafferth fawr oedd i lawer adael i gael plant! Ond er bod hel cariadon yn elfen bwysig yn ogystal â'r elfen gymdeithasol, prif amcan y côr oedd ac yw canu, a hynny i'r safon uchaf posib.

Gyda dros gant yn ymuno ddechrau Ebrill 1992, roedd gosod safon yn bwysig, o'r dechrau. Yn eu perfformiad cyhoeddus cyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth 1992, fe gipiodd y Côr y brif wobr i gorau cymysg , llwyddiant sydd wedi ei ail adrodd mewn saith Eisteddfod Genedlaethol ar hyd ac ar led Cymru gan gynnwys Eisteddfod Genedlaethol Dinbych y llynedd.

Yn flynyddol bydd y côr yn trefnu cyngerdd ar gyfer y Pasg. Eleni gwaith gan y cyfansoddwr cyfoes Karl Jenkins "Offeren Heddwch" fydd yn cael ei berfformio, a hynny ym mhentref ei fagwraeth sef Penclawdd, Bro Gwyr.

Mae'r "Offeren Heddwch" yn waith tair ieithog, yn y Ffrangeg, Lladin a Chymraeg, gyda'r addasiad Cymraeg gan y prifardd Tudur Dylan Jones. Bydd y ddau berfformiad ar benwythnos Mawrth 16 yn Nhabernacl Penclawdd, Bro Gwyr, a Mawrth 17 yn Nhabernacl Caerdydd. Mae'r gwaith yma yn faes llafur Cerddoriaeth TGAU eleni.

O'r cychwyn cyntaf y bwriad oedd ceisio rhoi cyfle i unawdwyr o'r côr berfformio. Un o'r aelodau hynny yw Abigail Williams sy'n wreiddiol o Abertawe. Aelod arall o'r côr fydd yn canu unawd yw Delwyn Sion, a hynny i gyfeiliant organ yn hytrach na'i gitâr arferol.

Unawdydd arall sydd wedi canu gyda'r côr yw tenor ifanc arbennig o ardal Tregaron sef Robyn Lyn, a'r unawdydd bâs fydd Huw Euron .

A beth sydd ar y gweill hyd ddiwedd y flwyddyn ? Wel mae'n rhaid cael parti i ddathlu unrhyw ben-blwydd. Cyfle i aelodau hen a newydd ddod at eu gilydd ganol Ebrill, yna dechrau Mai cyngerdd gyda chorau Ardwyn, Polyphonic a Chôr Bach Abertawe. Yr unawdwyr yw Leslie Garrett, Russell Watson a Willard White a bydd y cyngerdd yn cael ei ddarlledu'n fyw ar Fai y 3 ydd o Barc Yr Arfau. Wedi hyn bydd angen dysgu darnau newydd ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Tŷddewi a byddwn yn recordio ar gyfer Cystadleuaeth Corau Cymru sy'n cael ei threfnu gan Radio Cymru ddechrau Hydref.

Cofiwch fod croeso i aelodau hen a newydd pob amser. Os am fwy o fanylion cysylltwch â Gwawr Owen neu Huw Williams 029 20 411692.



## CYSTADLEUAETH CÔR CYMRU 2003



Fe fydd cyfle i oreuon byd corawl Cymru gystadlu ochr yn ochr ac ennill hyd at £7,000 mewn cystadleuaeth gorawl newydd - Côr Cymru 2002 - a lansiwyd gan S4C yn ddiweddar. Mae croeso i gorau o Gymru a thu allan i Gymru sydd â chysylltiad agos â'r wlad, neu sy'n perfformio'n gyson yn y Gymraeg, gymryd rhan. Bydd pedwar categori - Côr Ieuenctid dan 25 oed, Côr Cymysg, Côr Merched a Chôr Meibion.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn enwau ymgeiswyr yw Gorffennaf 1af 2002, ac am ragor o fanylion ynglyn â sut i gystadlu cysyllter â: Swyddfa Côr Cymru, Tŷ Opus, 60 Severn Grove, Caerdydd, CF11 9EP, ffôn 2022 3456 neu e-bost corcymru@opustv.com.

CAERDYDD a'r Fro

## Urdd 2002

### EISTEDDFOD GENEDLAETHOL

### Meysydd Parcio

Gwahoddir ceisiadau gan fudiadau gwirfoddol, e.e. corau a chlybiau rygbi neu bêl-droed leol, i redeg meysydd parcio'r Eisteddfod. Am fanylion llawn, cysyllter ag Ian Carter, Swyddfa'r Eisteddfod, 029 2080 3360.

# Y Dinesydd

**Mawrth, Rhif 270.** **ISSN 1362-7546**

Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd,
Ffôn: 029 2056 6046, ebost: lorraine@pioneerprinting.co.uk
a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Golygydd y rhifyn hwn:**
Sian Parry Jones

**Golygydd y rhifyn nesaf:**
Delyth Evans

## NEWYDDION, ERTHYGLAU, ETC.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Ebrill/Mai 2002 erbyn 19 Ebrill at:**
Delyth Evans, 23 Alfreda Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2EH (Ffôn: 029-2062-1266;
e-bost: enquiries@pioneerprinting.co.uk)
**neu at Gadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd*:**
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754;
e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

## CALENDR

Anfonwch eitemau at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754; e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

## DOSBARTHU

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 2084 2929).

## HYSBYSEBION

**Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae incwm hysbysebion yn hanfodol at gynnal y papur.**
**Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:**
**Menna Gwyn, 41 Wingfield Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 029-2041 8270;**
**e-bost: MennaGwyn@aol.com)**

## CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindre, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE (Ffôn: 2040 4906) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

## FFURFLEN GYFRANNU

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: ..................................................................

Cyfeiriad: ..........................................................

.............................................. Côd Post: ..................

Rhif Ffôn: ..........................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindre, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

**CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG I'R CYHOEDDIAD HWN**

Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT . . .


**0845 6076070**

**Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm**
cyfradd galwadau lleol

www.mentrau-iaith.com www.bwrdd-yr-iaith.org.uk www.papurau-bro.com

## CROESAIR gan Rhian Williams

**Rhif 30** **Mawrth 2002**



**Ar Draws**

8. Anturiaf ar newid trefn M.A. (7)
9. 'Tra bo clogwyn yn _____
   Tra bo coed ar ben y Beili
   Tra bo dwfr yn afon Alun,
   Cadwaf galon bur i Rywun.' (J.B.) (5)
10. Darnio yn ffôl yn ddarnau bychain (5)
11. Rhai sy'n gwella wrth gyfnewid awyr iach (7)
12. Gwneuthurwr Arch mewn darn o anialwch (3)
14. 'Rwyf wedi alaru ers talm ar glywed grŵn
    Y Cymry, bondigrybwyll, __ _____ ___.' (T.H.P.W.) (2,4,3)
17. Tyner yw'r ___ ___ tros fawnog
    Trawsfynydd yn dringo' (R.W.P.) (5.4.)
19. A oes llawer yn cofio gwraig hwn? (3)
20. '____ gwir Gymreigydd - iaith ei fam,
    Mae wrth ei fodd beunydd' (W.W.) (7)
22. Tarfu ar chwe morwyn (5)
24. Y glew rywsut yn cael lle i orffwys (5)
25. 'Mi __ ___ ___ i osgoi eu lleferydd a'u llên
    Yn ôl i'm cynefin gynt, a'm dychymyg yn drên. (T.H.P.W.) (2,2,3)

**I Lawr**

1. Casglu ynghyd a rhannu mygyn cyn codi llun (8)
2. Yn gytun yn dechrau undeb newydd o lafurwyr (4)
3. 'Tyrd, fy Anwylyd, mae'n hwyrhau
   A'm haul ____ ____ i lawr' (W.W.) (4,4)
4. 'O flaen __ ___ rhaid sefyll
   Ie, sefyll cyn bo hir
   Nid oes â'm nertha yno
   Ond dy gyfiawnder pur.' (W.W.) (1,5)
5. Er gwaethaf cariad (4)
6. A oedd O.M. a Selwyn yn cymysgu'n agos? (8)
7. Mae ar yn ail mewn sain cerdd heb os. (4)
13. 'Anturiaf, Arglwydd, yr awr hon
    Yn llwch __ _____ ____ dy fron' (R.D.) (1,4,3)
15. Bod yn werthfawrogol o dir o galch wedi ei aredig (8)
16. Talu i Ron am greu rhywbeth cynhenid (8)
18. Hwyrach fod y wraig gyntaf ddim mor fawr (6)
20. Cael rhwystr yn troi i fyny mewn aml gamwri (4)
21. Gweld y ffin yn y cymylau (4)
23. Torri amod i gael rhywbeth i wisgo yn yr arch efallai (4)

**Atebion Croesair 29**

**Ar draws:** 1. Gwarantu; 4. Banc; 8. Addo; 9. Meirw; 10. Sêr; 11. Gwlanog; 12. Sarnu; 13. Anthemau gras; 17. Bidog; 18. Dawnsio; 20. Ond; 21. Ymladd; 22. Chwa; 23. Tagu; 24. Anial dir. **I Lawr:** 1. Gwasgu; 2. Arogl; 3. Triog; 5. Awstria; 6. Carcus; 7. Pwysigrwydd; 9. Mynwes glyd; 14. Nodedig; 15. Sbloet; 16. Ionawr; 18. Dulyn; 19. Syched.

Derbyniwyd 10 ymgais a'r cyfan yn gywir. Danfonir y tocyn llyfr i D Gwyn Jones, 3 Heol Coed Cae, Caerdydd. Cafwyd yr atebion erall gan Gaenor Hall, Gwenda Hopkins, H.O.Hughes, Margaret Jones, Marian Lake, Rhiain Phillips, Dilys Pritchard-Jones, Buddug Roberts and Huana Simpson.

**Cystadleuaeth Mawrth 2002**: Anfonwch eich atebion i: 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6AN. Atebion i gyrraedd erbyn 19 Ebrill 2002.

## Calendr y Dinesydd

**Gwener, 8 Mawrth**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Swper Gŵyl Ddewi yn festri Bethel, Eglwys y Bedyddwyr, Heol Pen-llin, Yr Eglwys Newydd, am 7.30 p.m. Gŵr gwadd: Parch. Evan Morgan.
**Llun, 11 Mawrth**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: Noson y Dysgwyr, dan ofal Falmai Griffiths, yn festri Capel Minny Street, Cathays, am 6.00 p.m.
**Mawrth, 12 Mawrth**
Cymdeithas Tabernacl, Yr Ais: 'Doniau'r Diaconiaid' dan ofal Delun Callow, am 7.30 p.m.
**Iau, 14 Mawrth**
Cylch Cinio Merched Caerdydd yng Ngwesty'r Phoenix, Llanisien, am 7.00 ar gyfer 7.30 p.m. Sgwrs gan Rhiannon Gregory. Manylion pellach: 2065-7730 neu 2062-4878.
**Gwener, 15 Mawrth**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Mesur y Bardd Bach: Golygu Cerddi Gwenallt.' Darlith gan Dr Christine James, yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00 p.m.
**Mawrth, 19 Mawrth**
Darlith Goffa G. J. Williams (dan nawdd Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd): Darlith gan yr Athro Jane Aaron ar y testun 'Aberdwyafon: Cymharu Ffuglen Drefol Gymraeg a Chymreig', yn Ystafell 2.01, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 5.30 p.m.
**Mawrth, 19 Mawrth**
Cymdeithas Tabernacl, Yr Ais: Sgwrs gan y Parch. Evan Morgan, am 7.30 p.m.
**Mercher, 20 Mawrth**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Sgwrs gan Myfanwy Jarman, yn festri Capel Minny Street, Cathays, am 2.30 p.m.
**Mercher, 20 Mawrth**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon: 'Tŷddewi a'r Cyffiniau.' Sgwrs gyda sleidiau gan y Parch. G. Maxwell Evans, am 7.00 p.m.
**Llun, 25 Mawrth**
Cymdeithas Wyddonol Caerdydd: 'Ffug-Draethau a'r Mwydyn yn y Gwin.' Darlith gan Tegwyn Harris (Prifysgol Caerwysg), am 7.30 p.m. yn Ystafell G77, Prif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays.
**Mawrth, 26 Mawrth**
Cymdeithas Tabernacl, Yr Ais: Cyngerdd gan Gôr y Tabernacl (Arweinydd: Euros Rhys Evans), am 7.30 p.m.
**Gwener, 29 Mawrth**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: Gwasanaeth Gwener y Groglith. Pregethir gan y Gwir Barch. Ddr Barry Morgan, Esgob Llandaf, yn Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, am 2.00 p.m.
**Gwener, 5 Ebrill**
Cymrodorion Caerdydd: Noson yng nghwmni Cymrodorion y Barri, yn festri Eglwys Minny Street, am 7.15 p.m.
**Llun, 8 Ebrill**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: 'Hen Bethau.' Sgwrs gan Mary Wiliam, ym Methany, Rhiwbina, am 7.30 p.m.
**Llun, 8 Ebrill**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: Noson yng nghwmni Mair a Gaenor ('Y Diliau'), yn festri Capel Minny Street, Cathays, am 7.30 p.m.
**Llun, 8 Ebrill**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills, Llandaf,
7.00 ar gyfer 7.30 p.m. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd: Tony Couch (Ffôn: 2075-3625; e-bost: ajcouch@yahoo.co.uk).
**Mercher, 10 Ebrill**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: 'Prynhawn Difyr', yn festri Capel Minny Street, Cathays, am 2.30 p.m.
**Iau, 11 Ebrill**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: Sgwrs ar y testun 'Cyfrifoldeb Unigolion o Fewn yr Eglwys' gan Mrs Eirlys Pritchard Jones, yn Eglwys y Crwys, Heol Richmond, am 7.30 p.m.
**Gwener, 12 Ebrill**
Cymry'r Wenallt: Sgwrs gan Dr E. Wyn James ar y testun 'Merched a'r Emyn', yng Nglwb Rygbi Heol Felindre, Yr Eglwys Newydd, am 8.00 p.m. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd: John M. Rees (029-2048-2922).
**Mawrth, 16 Ebrill**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Noson gerddorol dan ofal y Parch. Beti-Wyn James, yn festri'r Eglwys Annibynnol Gymraeg, Sgwâr y Brenin, Y Barri am 7.15 p.m.
**Mercher, 17 Ebrill**
Cylch Cadwgan: Yr Athro Sioned Davies yn darlithio ar y testun 'Perfformio o'r Pulpud' yn Ysgol Gynradd Creigiau am 8p.m. (Sylwer bod y dyddiad wedi newid o 15 Mawrth 2002).
**Mercher, 17 Ebrill**
Merched y Wawr, Bro Radur: Garddio gyda Carys Whelan, yn Neuadd y Methodistiaid, Radur, am 7.30 p.m.
**Mercher, 17 Ebrill**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon: Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, am 7.00 p.m.
**Sul, 21 Ebrill**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Cymanfa ganu dan arweiniad Alun Guy yng nghapel Beulah, Rhiwbina, am 8.00 p.m.
**Mercher, 24 Ebrill**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Sgwrs gan Joy Parry, yn festri Capel Minny Street, Cathays, am 2.30 p.m.
**Mercher, 1 Mai**
Merched y Wawr, Bro Radur: 'O Ddydd i Ddydd.' gyda Betsan Powys, yn Neuadd y Methodistiaid, Radur, am 7.30 p.m.
**Mercher, 8 Mai**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Sgwrs gan Delyth Roberts, yn festri Capel Minny Street, Cathays, am 2.30 p.m.
**Iau, 9 Mai**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: 'Ystyr y Dyrchafael' gan y Parch. Glyn Tudwal Jones, yn Salem, Treganna, am 7.30 p.m.
**Llun, 13 Mai**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina yn cyfarfod ym Methany, Rhiwbina, am 7.30 p.m.
**Llun, 13 Mai**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills, Llandaf,
7.00 ar gyfer 7.30 p.m. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd: Tony Couch
**Mercher, 15 Mai**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon: Sgwrs gan Owen John Thomas, AC, am y Cynulliad am 7.00 p.m.
**Llun, 20 Mai**
Cymdeithas Wyddonol Caerdydd: 'Datblygiadau mewn Delweddu Meddygol.' Darlith gan Dr Will Evans (Ysbyty'r Brifysgol), am 7.30 p.m. yn Ystafell G77, Prif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays.
**Mawrth, 21 Mai**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Noson y Llywydd (Larry Bufton), yn festri'r Eglwys Annibynnol Gymraeg, Sgwâr y Brenin, Y Barri am 7.15 p.m.
**Mercher, 22 Mai**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Sgwrs gan Martin Huws, yn festri Capel Minny Street, Cathays, am 2.30 p.m.
**Llun-Sadwrn, 3-8 Mehefin**
Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Caerdydd a'r Fro.
**Mercher, 5 Mehefin**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Rhaglen dan ofal Ysgol Glantaf, yn festri Capel Minny Street, Cathays, am 2.30 p.m.
**Mercher, 5 Mehefin**
Merched y Wawr, Bro Radur: 'Allan â Ni!' Manylion pellach: Mrs Brenda Jones (029-2084-2946).
**Llun, 10 Mehefin**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Te Mefus a Noson Gymdeithasol, ym Methany, Rhiwbina, am 7.30 p.m.
**Llun, 10 Mehefin**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills, Llandaf,
7.00 ar gyfer 7.30 p.m. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd: Tony Couch (Ffôn: 2075-3625; e-bost: ajcouch@yahoo.co.uk).
**Iau, 13 Mehefin**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: 'Gwarchod y Byd.' Sgwrs gan Dr Hefin Jones, ym Methlehem, Gwaelod-y-garth, am 7.30 p.m.
**Mercher, 19 Mehefin**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Sgwrs gan Sali Evans, yn festri Capel Minny Street, Cathays, am 2.30 p.m.

*Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754; E-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).*

## LLONGYFARCHIADAU I ...

• Emlyn a Marion Davies ar enedigaeth eu gorŵyr Scott Thomas, sef mab Lynne a Darren Morgan
• Elin Mair Burns a gafodd gynnig lle yng Ngholegau Rhydychen yn ddiweddar.
• Gwych oedd cael clywed newyddion Guto Thomas fod Prifysgol Cymru yn dyfarnu gradd doethur iddo mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol. Cyflwynodd Guto thesis ar Fasnachu rhwng Prydain a Cuba 1961-63.



## Nodyn i'ch atgoffa....

O Ebrill 1 ymlaen, caiff pensiynwyr deithio am ddim ar fysiau ar draws Cymru wrth ddangos Pàs Bws Cymru-gyfan.

Ac os oes gennych Bàs Bws Hanner Pris i Bobl Anabl, bydd hawl gennych Gael Pàs Bws Consesiynol Cymru-gyfan o 1 Ebrill ymlaen. Ewch â'ch pàs cyfredol i'r Ganolfan Gymorth yn y Sgwâr Canolog (ger yr Orsaf Fysiau) dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 10am a 4pm, neu cofrestrwch drwy'r post, drwy gasglu ffurflen gofrestru o (Swyddfa Werthu) Bws Caerdydd, unrhyw lyfrgell leol, canolfan hamdden neu gymunedol, neu Neuadd y Sir.

Os nad oes gennych bàs, ond eich bod yn teimlo hwyrach bod gennych chi hawl i gael un, ffoniwch Cysylltu â Chaerdydd ar: 2087 2088 i gael ffurflen gais.

## Channel View yn Barod i Fynd

Mae'r paratoadau i agor Canolfan Channel View ar ddydd Gwener, 1 Mawrth, yn prysuro gyda 25 o staff yn eu swyddi a'r offer yn cyrraedd ar gyfer pob math o gyfleusterau fel y feithrinfa, yr ystafell ffitrwydd ac offer cynnal partïon plant. Daeth grŵp o blant o Ysgol Feithrin Grangetown i ymweld â'r ganolfan i roi cynnig ar y tegan awyr Airspace, a fydd yn nodwedd o'r ganolfan.





## S4C yn penodi Comisiynydd Rhaglenni Plant

Mae S4C wedi penodi Siwan Jobbins fel Comisiynydd Rhaglenni Plant y sianel. Fe'i magwyd yng Nghaerdydd ac mae'n gyn ddisgybl yn Ysgol Gyfun Glantaf.

Ar hyn o bryd mae Siwan yn gweithio fel cynhyrchydd llawrydd gyda chwmni Avanti yn ffilmio cyfres gylchgrawn gerddorol newydd i bobl ifainc, Popty, fydd yn dechrau ar S4C ym mis Mawrth. Tan fis Hydref y llynedd roedd hi'n gynhyrchydd gydag Adran Nodwedd HTV, ac yn gyfrifol am gyfresi fel Pacio, W-Y Misus a Cic ymhlith eraill.

## PENODIAD NEWYDD

Penodwyd Geoff Wright i swydd Tiwtor-Drefnydd Cymunedol yn y Ganolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion ym Mhrifysgol Caerdydd yn ddiweddar.

Mae'r swydd yn rhan o fenter newydd i ymestyn addysg Gymraeg i oedolion mewn cymunedau lleol yn y brifddinas. Rhan bwysig o'r swydd yw dechrau, dysgu a datblygu cyrsiau Cymraeg i ddechreuwyr mewn ardaloedd llai breintiedig y ddinas, a hybu'r defnydd o'r iaith yn y gymuned.

## NEWYDDION O'R CYNULLIAD

Bydd cyfarfod nesaf Pwyllgor Rhanbarth y De-Ddwyrain yn cael ei gynnal yng Nghanolfan Chwaraeon y Rhondda o 9.30 hyd 12.30 ddydd Gwener 8 Mawrth. Bydd y cyfarfod yn canolbwyntio ar faterion anabledd. Mae croeso i'r cyhoedd ddod i'r cyfarfod a bydd cyfle i holi Aelodau'r Cynulliad a'r cyflwynwyr. Dylai unrhyw un sydd â diddordeb mewn mynychu'r cyfarfod ffonio 2089 8477 i archebu lle.

## GŴYL GENEDLAETHOL GWYDDONIAETH

Mae cyfle i unrhyw un sydd wedi breuddwydio am fod yn dditectif deinosoriaid neu am gwrdd â chosmonôt wneud hyn i gyd a mwy yn ystod gŵyl Gwyddoniaeth yn y Ddinas yng Nghaerdydd yn ystod mis Mawrth.

Mae'r ŵyl yn cynnig cyfres o ddigwyddiadau syfrdanol a gynhelir mewn saith canolfan wahanol, fel yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol, Techniquest, UWIC a hyd yn oed tu fas i Ganolfan y Capitol yn Heol y Frenhines. Bydd y cyrff sy'n cymryd rhan yn cynnig gweithgareddau ymarferol, arddangosiadau, sioeau gwyddoniaeth a hyd yn oed daith wyddoniaeth o gwmpas y ddinas, i helpu dangos y rhan mae gwyddoniaeth yn chwarae yn ein bywydau bob dydd. Mae'r digwyddiadau wedi eu hanelu at y teulu cyfan ac mae manylion llawn digwyddiadau Gwyddoniaeth yn y Ddinas i'w gweld yn www.walesscienceyear.org.uk

## CYLCH CINIO CYMRAEG CAERDYDD

Anerchwyd y Cylch Cinio nos Lun, 11 Chwefror, gan Rhodri Glyn Thomas A.C. Testun ei anerchiad oedd gwaith y Pwyllgor Diwylliant ac yn arbennig adolygiad presennol yr Iaith Gymraeg. Cafwyd trafodaeth hir a diddorol yn dilyn yr anerchiad. Yn ystod y noson dewiswyd Mr Havard Gregory i olynu Mr Illtyd Lewis fel Llywydd y Cylch am 2002. Bydd cyfarfod nesaf Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd nos Lun, 4ydd o Fawrth. Am fanylion pellach cysylltwch â Tony Couch ar (029) 2075 3625 neu ajcouch@yahoo.co.uk.



*Mr Havard Gregory a Rhodri Glyn Thomas, A.C.*

## DIOLCH O GALON

Mae cwmni teledu yn chwilio am enwebiadau ar gyfer cyfres newydd *Diolch o Galon*. Bwriad y gyfres fydd talu teyrnged o ddiolch i'r unigolyn hynny sydd wedi rhoi eu hamser i helpu eraill, boed hynny drwy ddysgu crefft, hyfforddi, gofalu neu gymwynasau. Bydd y criw yn ymweld â'r unigolyn a chyflwyno gwobr arbennig fydd yn "diolch o galon" iddynt am eu caredigrwydd. Os hoffech enwebu rhywun i dderbyn gair o ddiolch, cysyllter â Paul neu Marian ar 01248 671167, neu ysgrifennwch at: Diolch o Galon, Tonfedd Eryri, Hen Ysgol Aber Pwll, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4JS

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

## Tabernacl Caerdydd - Mawrth 2002

Roedd hi'n dda gennym gael cwmni cyn-aelod, Meurig Thomas, yn ddiweddar. Bu'n arholi Cerdd mewn sawl rhan o'r byd dros 2001 gan dreulio llawer o amser yn yr Amerig. Aeth i wlad Twrci ym mis Ionawr ac mae'n mwynhau'r cyfleoedd yn fawr.

Mae'n diolch i Robin Gwyndaf am drefnu i griw o'r capel gyfrannu i'r plethiad o oedfaon byrion i gofio am y sawl sydd yn y carchar oherwydd eu cydwybod wleidyddol a chrefyddol. Cynhaliwyd yr oedfaon eleni yng nghapel Salem Treganna.

Derbyniwyd nodyn o werthfawrogiad oddi wrth y Gymdeithas Genhadol yn cydnabod i ni anfon 6,890 o hen stampiau yn ystod 2001. Cânt eu defnyddio i ennill mwy o incwm i'r Gymdeithas Genhadol. Gwireddwyd £7,000 gan y cynllun dros Brydain llynedd.

Cafwyd noson ragorol o'r Gymdeithas yng nghartref Siân a Huw Thomas i agor ail dymor y Gymdeithas. Gwerthfawrogwyd doniau cerddgar rhai o bobl ifanc yr eglwys, sef Alys Reed, Steffan a Marged Jones, ynghyd â chyfraniad Siân a Lisa ar eu haelwyd eu hunain. Roedd ail noson y tymor dan ofal Calan McGreevy ac fe arweiniodd ni ar hyd ei gyrfa, mewn modd difyr a hwyliog. Trefnodd Mary Thomas noson go wahanol pan glywyd gan Edith Roberts am chwarae bowls, a John Thomas am ei ddiddordeb mewn adnewyddu ac atgyweirio hen gelfi.

Yn ystod y misoedd diwethaf, derbyniodd y Tabernacl wahoddiad drwy law Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Bedyddwyr Cymru i efeillio gydag eglwys yn Estonia. Bydd nifer o eglwysi eraill sy'n perthyn i'r Undeb yn gwneud cysylltiadau tebyg.

Bu'n arfer i gynnal Cymanfa Ganu Flynyddol y Maer yn Neuadd Dewi Sant. Eleni, penderfynwyd ei chynnal yn y Tabernacl ar nos Sul Mawrth 3ydd i ddechrau am 7.30pm. Pris y tocynnau fydd £5 yr un gyda'r elw yn mynd i gefnogi Apêl Arch Noa yn Ysbyty'r Brifysgol. Yr arweinydd fydd Robert Nicholls, a'r Organydd fydd Marc Jon Williams. Y côr gwadd eleni yw Côr Meibion Caerdydd a'r unawdydd fydd Rhian Mair Lewis o'r Coleg Cerdd a Drama.

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD GYMRAEG

Llongyfarchiadau i Catherine ac Iwan Taylor, Ystum Taf, ar enedigaeth eu mab, Huw: brawd bach i Ffion Gwawr ac Iwan Lewis.

Yn ystod mis Chwefror bu'r eglwys yn casglu dillad a bwyd ar gyfer Rwmania, ac yn oedfa'r hwyr ar 10 Chwefror cafwyd peth o hanes y gwaith gan Mrs Helen Gibbard.

Ar nos Fawrth 5 Chwefror ymwelodd Ruth Davies â'r eglwys, a rhoddodd amlinelliad o hanes ei gwaith gyda Chymdeithas Athrawon Cristnogol Cymru.

*Rhagor o newyddion ar dudalen 9*




## Minny Street, Caerdydd

Cafwyd amrywiaeth o oedfaon arbennig yn ystod yr wythnosau diwethaf. Nos Sul 20 Ionawr, Cafwyd oedfa ar y thema "Myfi yw Goleuni'r Byd" gyda rhyw ddwsin o aelodau iau yr Eglwys yn ein harwain mewn emynau, darlleniadau a cherddi. Mawr yw ein diolch i Eleri Morgan fu'n gyfrifol am drefnu'r oedfa a chafwyd myfyrdod gafaelgar ganddi ar y thema. Wythnos yn ddiweddarach, yn yr oedfa foreol, buom yn dathlu ein gefeillio ag Eglwys y Tranovato ym Madagascar gyda Havard Gregory yn arwain yr oedfa gan gyflwyno nifer o ffeithiau a sylwadau am yr ardal a gwaith yr eglwys yno. Bu Rhiannon Gregory yn dangos fideo i blant yr Ysgol Sul fel eu bod hwythau hefyd yn cael syniad o'r hyn sydd yn digwydd ym Madagascar.

'Roedd penwythnos gyntaf mis Chwefror yn benwythnos arbennig iawn i nifer o'n pobl ifanc wrth iddynt, dan arweiniad Carys Davies (y Swyddog Ieuenctid), gymryd rhan mewn ympryd 24 awr fel rhan o gynllun elusennol World Vision. Daeth rhyw ddwsin a hanner o ieuenctid (gan gynnwys ambell un ychydig yn hyn!) at ei gilydd ganol dydd ar y Sadwrn i rannu cinio yn y Festri cyn iddynt ddechrau at eu hympryd. Bu'r ieuenctid wedyn yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau gyda chyfeillion yn taro i mewn o bryd i'w gilydd i'w difyrru! Tra i nifer o'r ieuenctid fynd adref am ychydig oriau o gwsg (tra'n parhau i ymprydio) bu i dri, ynghyd â phedwar o oedolion (ifanc!) aros yn y festri dros nos. Gyda phawb yn ôl yn gynnar fore Sul, ymunodd pawb mewn oedfa yng ngofal Marged Williams ac Elinor Patchell a'u teuluoedd yn canolbwyntio ar thema'r penwythnos. Cawsom gyfle i ddod i wybod mwy am World Vision a'r apêl arbennig, Apêl Oren, i gasglu arian tuag at blant sydd yn dioddef o effeithiau rhyfel. Yn ganolbwynt i'r gwasanaeth 'roedd sbectol fawr World Vision a luniwyd gan nifer o'r ieuenctid ddydd Sadwrn. Wedi'r oedfa, yn ôl i'r festri i aros yn amyneddgar am 1 o'r gloch pan baratowyd cinio i'r ymprydwyr i ddathlu diwedd yr ympryd. Y gobaith ar ddechrau'r ymgyrch oedd casglu £500 tuag at yr apêl, ond erbyn fore Sul 'roedd dros £800 eisoes wedi eu casglu a chydag arian ychwanegol yn dod i mewn ynghyd â chasgliad yn yr oedfa llwyddwyd i groesi £1200. Llongyfarchiadau calonnog i bob un fu'n ymprydio a diolch i bawb wnaeth gefnogi'r ymdrech yn ariannol ac yn ymarferol dros y penwythnos.

Llongyfarchiadau cynnes i Wyn a Rachel Jenkins ar enedigaeth Sam Rhys ar Ionawr 29. A chroeso cynnes i Mrs Elinor Davies (Llandaf) a ddaeth atom yn aelod yn oedfa Gymun nos Sul, 3 Chwefror.

## Ebeneser Caerdydd

Llawenydd mawr i ni fu cael dau fedydd yn ddiweddar yn Ebeneser. Ar fore Sul 9 Rhagfyr cawsom dystio i fedydd Soffia Hope Hunter, merch Sara a Paul Hunter, Pontcanna. Yna, bore dydd Sul, 17 Chwefror bedyddiwyd Catrin Angharad, merch Anwen a Gareth Jones. Ein llongyfarchiadau mawr i'r ddau deulu a'n dymuniadau gorau iddynt i'r dyfodol.

CAERDYDD a'r Fro
Urdd 2002

## Y BRIFWYL YN Y BRIFDDINAS!

Dyna deitl yr ymgyrch farchnata newydd i ddenu sylw i'r ffaith fod Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru 2002 yn dod i Gaerdydd a'r Fro. Drwy gydol misoedd Ebrill a Mai, bydd deunyddiau lliwgar a deniadol, yn daflenni, yn bosteri, hysbysebion ar fysus a baneri yn cyhoeddi'n eglur ledled Cymru fod yr Eisteddfod yn dod i'r brifddinas.

Yn ôl Sian Eirian, Cyfarwyddwr yr Eisteddfod a'r Celfyddydau: "Dyma'r tro cyntaf ers 17 mlynedd i Eisteddfod yr Urdd ddod i Gaerdydd a'r Fro, ac rydyn ni wrth ein boddau bod gennym leoliad mor ganolog. Dylai'r achlysur fod yn gyfle gwych i dynnu sylw llawer iawn o bobl sy' erioed wedi clywed am yr Urdd o'r blaen - yn bobl sy'n byw yng Nghaerdydd ac yn ymwelwyr o rannau eraill o Brydain a thramor - at y ffaith fod prifwyl ieuenctid Ewrop yn rhywbeth sy'n digwydd yma yng Nghymru bob blwyddyn."

Hefyd, gan fod eleni'n flwyddyn bwysig i Gaerdydd yn Ewrop, gyda'r cais am gael bod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop yn 2008 yn mynd i mewn diwedd mis Mawrth, mae'r Urdd a chwmni Caerdydd 2008 wedi cytuno i gydweithio yn ystod y tri mis nesaf a bachu ar bob cyfle i gyflwyno'r neges o fwrlwm a hwyl yr Urdd ar lwyfan ehangach.

Meddai Lynne Williams, Prif Weithredwr Caerdydd 2008: "Rydyn ni'n hynod o falch o'r cysylltiad yma gyda'r Urdd. Mae cyfraniad y mudiad i ddiwylliant Cymru, sy'n ganolbwynt i'n cais i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop 2008, yn amhrisiadwy. Heb os nac oni bai, bydd presenoldeb yr Eisteddfod yma, yn ystod y cyfnod pan fydd Caerdydd yn cael ei hasesu yn erbyn dinasoedd eraill yn y gystadleuaeth am y teitl Diwylliant, yn help mawr i'r achos. Pa well lwyfan i arddangos diwylliant ieuenctid y genedl? ".

## BLE MAE'R BEIRDD?

I gyd-fynd â chais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop 2008 mae prosiect arbennig iawn yn cael ei drefnu gan yr Academi Gymreig i greu cerdd newydd am y ddinas. Noddir y prosiect gan BT, a'r gobaith yw y bydd pobl o wahanol gymunedau ym mhob rhan o Gymru yn cyfrannu ato. Yn ôl y trefnydd, Susan Richardson, dyma'r tro cyntaf i ddinas greu cerdd gymunedol.

Bydd y gerdd yn cael ei harddangos ar fysus, ar grysau-t, ar fagiau ac ati. Os am gyfrannu at y gerdd unigryw hon, danfonwch eich cyfraniad at Susan Richardson yn yr Academi, Tŷ Mount Stuart, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FQ.

## CYNHYRCHIAD NEWYDD YN Y THEATR NEWYDD

Daw cynhyrchiad newydd sbon o'r sioe boblogaidd *Godspell* i'r Theatr Newydd dros y Pasg, cyn iddi fynd i'r West End yn Llundain.

Mae bron i 20 mlynedd ers i sêr fel David Essex a Jeremy Irons berfformio yn *Godspell* ar ddechrau eu gyrfaoedd. Eleni, yr actor Daniel MacPherson o *Neighbours* a'r cerddor Jonathan Wilkes fydd yn chwarae rhan yr Iesu a Jwdas bob yn ail berfformiad.

Ymysg y caneuon poblogaidd o'r sioe mae *Day by Day a Beautiful City* ac yn ogystal â chanu cyffrous mae'r cynhyrchwyr yn addo sioe ddawns egnïol a lliwgar.

Bydd *Godspell* yn y Theatr Newydd rhwng 25 a 30 Mawrth. Mae tocynnau ar werth o'r Swyddfa Docynnau neu drwy ffonio (029) 2087 8889.

**THE INTERNATIONAL FESTIVAL OF MUSICAL THEATRE IN CARDIFF**

**YR ŴYL RHYNGWLADOL THEATR GERDD YNG NGHAERDYDD**

## CAERDYDD GERDDOROL

Ym mis Hydref daw gwyl newydd sbon i'r ddinas, sef Gwyl Ryngwladol Theatr Gerdd, gydag enwau mawr o'r West End a Broadway yn perfformio.

Bydd yr Ŵyl ymlaen o Hydref 14eg hyd Tachwedd 3ydd mewn amryw o leoliadau gan gynnwys tafarnau, ysgolion a chlybiau yn ogystal â'r lleoliadau mwy traddodiadol fel y Theatr Newydd, Chapter a Theatr y Sherman.

Mae'r Ŵyl yn siwr o gynnig rhywbeth at ddant pawb. Bydd yn cynnwys cerddoriaeth o fyd yr opera a phantomeim, dawns a chabaret, jazz a'r syrcas a bydd sioeau cerddorol, cyngherddau, tymor o ffilmiau cerddorol a llawer iawn mwy ar y rhaglen.

Am ragor o wybodaeth am yr Ŵyl ewch i www.cardiffmusicals.com neu ffoniwch 2090 1112.

## CYLCH MEITHRIN RHIWBINA

Cynhelir fore coffi a ffair gwanwyn yn festri Capel Beulah Rhiwbina ar fore Sadwrn, Mawrth 9fed o 10.30 tan tua hanner dydd - croeso i bawb!

## CYLCH MEITHRIN YR EGLWYS NEWYDD

Cynhelir Noson Rasio Ceffylau Nos Sadwrn 16 Mawrth yn Neuadd St. Teilo, Yr Eglwys Newydd am 8.00pm. Croeso i bawb am noson hwylus iawn. Bar ar gael. Am docynnau ffoniwch 2063 0522.

Annwyl Olygydd,

"Annibynnwr mawr, mawrfrydig; Cymro pennaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg; y cenedlaetholwr mwyaf ar ôl Owain Glyndwr" - dyna a ddywedodd Gwenallt am Michael D. Jones (1822-98) yn Seiliau hanesyddol cenedlaetholdeb Cymru (1959). Bu'n weinidog yng Nghymru ac Ohio, UDA; yn Brifathro Coleg Annibynnol y Bala ac roedd yn un o sylfaenwyr y Wladfa Gymreig ym Mhatagonia.

Mae Cymdeithas Cymru-Ariannin - gyda chydweithrediad disgynyddion Michael D. Jones - yn bwriadu adnewyddu ei fedd yn yr Hen Gapel, Llanuwchllyn, a gosod llechen ar fur y ty lle y'i ganwyd - Tŷ Capel yr Hen Gapel. Gobeithiwn ddadorchuddio y rhain yng Ngorffennaf 2002 pan fyddwn fel Cymdeithas yn dathlu Gŵyl y Glaniad yn y Bala.

Os hoffai rai o'ch darllenwyr gyfrannu at y gwaith hwn byddem yn dra diolchgar. Gellir gyrru cyfraniadau i drysorydd y Gymdeithas - Rhys Jones, Llys Myrddin, Allt Saith aelwyd , Llangefni, Ynys Môn LL77 2TQ, gan wneud sieciau yn daladwy i Gymdeithas Cymru-Ariannin.

Yn gywir,

**Ceris Gruffudd**

**Ysgrifennydd**

Rhoshelyg@btinternet.com

# Plasmawr

## Taith i Amsterdam

Chwech o'r gloch y bore, ar y pumed ar hugain o Ionawr 2002 - ble oeddech chi? Yn cysgu'n drwm yn eich gwely clud efallai? Wel, roeddwn i a dros 50 o ddisgyblion blwyddyn 9, ynghyd â phedwar athro dewr, wedi ymgynnull ym maes parcio'r ysgol ar fin dechrau ar ein siwrnai!

Roedd taith hir o'n blaenau. O Gymru i Loegr, yna ar draws y sianel i Ffrainc, trwy Wlad Belg nes cyrraedd pen y daith sef tref Noordwijk ger Amsterdam. Arhoson ni yn 'Hotel de Ossawa' - gwesty traddodiadol sy'n berchen i deulu lleol. Ar ôl pryd o fwyd blasus a chwis cystadleuol iawn, wedi'i drefnu gan Mr Evans, roedd pawb yn barod ar gyfer noson hir o gwsg. Ond, erbyn 8 o'r gloch y bore canlynol roedden ni'n eistedd wrth y byrddau brecwast yn trefnu gweithgareddau'r dydd.

Trefnwyd y trip gan yr Adran Addysg Grefyddol ac uchafbwynt y daith oedd ymweld â thŷ Anne Frank. Roedd yn brofiad bythgofiadwy a wnaeth i mi sylweddoli y boen a chasineb a ddioddefodd gymaint o bobl yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Sylweddolais realiti cyfnod erchyll yr Holocaust.

Er gwaetha'r tywydd gwael, roedd siopa yn Amsterdam yn bleserus yn ogystal â'r daith ar y cwch drwy gamlesi'r ddinas. Ar ôl swper bendigedig arall a noson hwyr o fowlio deg roedd hi'n amser gwely eto! Ar y bore Sul fe wnaethom ymweld â synagog enfawr yng nghanol y ddinas. Roedd yr adeiladwaith a'r naws arbennig yn anhygoel. Am nad oes trydan yn yr adeilad, ni chynhelir gwasanaethau yn y gaeaf am ei bod yn rhy oer. Roeddem yn ddigon ffodus wedyn i fedru gwylio 400 o bobl yn gorymdeithio i goffáu a dangos parch at yr Iddewon wnaeth farw mewn amgylchiadau mor ofnadwy yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Cawsom gyfle i wario ein harian ar anrhegion traddodiadol mewn ffermdy caws a ffatri clocsiau cyn dychwelyd i'r gwesty lle cafodd pawb gyfle i ymlacio a mwynhau'r parti. Mwynhaodd pawb, yn enwedig Mr Evans a'i ddawnsio .. wel .. creadigol! Cawsom noson arbennig, cyn dechrau ar ein taith hir yn ôl y bore wedyn.

**Bethan Morton (Bl. 9)**

## Diwrnod yn Boulogne

Yng nghanol mis Chwefror aeth disgyblion o flwyddyn 10 ac 11 i Boulogne yn Ffrainc. Trefnwyd y trip gan Mlle Harris, ein hathrawes Ffrangeg. Gadawon ni'r ysgol am chwarter i un fore dydd Gwener - rhy gynnar i lawer ohonom ni! Fe wnaethom deithio ar y bws ac wedyn ar y llong o Dover i Calais.

Ar ôl cyrraedd fe wnaethom ymweld â hen dref Boulogne. Cawsom gyfle i fynd i'r Eglwys Gadeiriol a chawsom frecwast mewn caffi lleol. Yna, aethom o gwmpas rhan fodern y dref. Roedd hon yn ardal lân a oedd yn hynod o brysur. Yn dilyn hynny, aethom i ymweld â ffatri bara a chawsom gyfle i weld yr hen ddull a'r dull modern o bobi bara. Fe fwynhaon ni'r profiad o flasu rhai o'u bwydydd.

Cyn dychwelyd i Gymru aethom i siopa yn City de Europe. Roedd hi'n daith wych ac fe wnaethom gymryd mantais o'r cyfle i wella ein Ffrangeg!

**Sophie Elsmore (Bl. 10)**

### Llongyfarchiadau i

- Steffan Lloyd Evans am gael y prif ran gyda'r 'Music Theatr Wales'.
- Stephanie Dyer am gael ei derbyn i gerddorfa chwyth Cymru.

# Glantaf

## Cân i Gymru

Llongyfarchiadau i Iwan Rheon, blwyddyn 12 ar gael ei ddewis i ganu yng nghystadleuaeth 'Cân i Gymru'. Bydd yn canu cân o'r enw 'Gwell i ddod?'. Hoffai Iwan a chwaraeodd un o brif rannau 'Prima Donna', sioe gerdd Glantaf, yn ddiweddar, ganu'n broffesiynol yn y dyfodol. Dymunwn bob llwyddiant iddo.

## Pêl-rwyd dros Gymru

Llongyfarchiadau i Ellie Carey ar gael ei dewis i chwarae pêl-rwyd dros Gymru yn y tîm dan 19 oed. Bydd y gêm gyntaf yn Iwerddon yn rhan o'r Bencampwriaeth Ewropeaidd.



## Wyau Pasg i Romania

Ers sawl blwyddyn bellach bu disgyblion Glantaf yn casglu losin adeg y Nadolig i'w danfon i Romania. Ond am y tro cyntaf eleni casglwyd wyau Pasg bach i'w danfon i blant anghenus y wlad honno. Cafwyd ymateb da iawn gan ddisgyblion yr ysgol a bydd yr wyau ynghyd â nwyddau eraill yn cael eu cludo i Romania cyn y Pasg gan yr elusen 'Support for Romania'.

## CYMORTH I'R CRYNWYR

Mae Cymdeithas Grefyddol y Cyfeillion ym Mhrydain (Y Crynwyr) yn awyddus i wybod faint mae'r cyhoedd yn gwybod amdanynt. Mae'n debyg fod llawer yn ymwybodol o gyfraniad y Crynwyr yng Nghymru yn y gorffennol, diolch i nofelau Marion Eames ac yn enwedig o ganlyniad i'r darllediad diweddar o *Y Stafell Ddirgel* ar S4C, ond tybed faint sy'n gwybod am y Crynwyr yng Nghymru heddiw.

Nod Prosiect Croeso Ysbrydol y Crynwyr yw darganfod mwy am faint o bobl sy'n gwybod am eu cyfarfodydd lleol, i ba raddau mae'r Crynwyr yn llwyddo i ymateb i anghenion y gymdeithas ddwyieithog yng Nghymru, a pha fath o groeso mae'r Crynwyr yn ei estyn i ymwelwyr.

Hoffai cydlynydd y prosiect glywed gan unrhyw un sy'n teimlo gallent rannu eu syniadau a'u profiadau, a chaiff pob cyfraniad ei drin yn hollol gyfrinachol. Gellir cysylltu â'r cydlynydd, Stevie Krayer, ar 01570 470947 neu croesowelcome@yahoo.co.uk, ac mae rhagor o wybodaeth ar y we yn www.beehive.thisissouthwales.co.uk/quakers.

Cardiff Festival
Gŵyl Caerdydd

## CAERDYDD - DINAS Y DIGWYDD

Mae rhaglen gyffrous o ddigwyddiadau wrthi'n cael ei pharatoi ar gyfer yr haf, ac yn ogystal â'r digwyddiadau blynyddol sydd mor boblogaidd - fel Gŵyl Caerdydd - mae nifer o ddyddiadau newydd i nodi yn eich dyddiaduron.

Y chwaraeon oedd y digwyddiadau uchaf eu proffil llynedd, ac eleni gallwn groesawi Cwpan yr FA (Mai 4ydd), gemau terfynol Cynghrair Nationwide (Mai 10fed, 11eg a 12fed). Grand Prix Speedway (Mehefin 8fed) a Rali Network Q (Tachwedd 14eg hyd 17eg) yn nôl i'r ddinas. Does dim amau bod digwyddiadau poblogaidd fel hyn yn tynnu sylw'r byd at Gaerdydd a Chymru, ac yn cyfrannu at adfywiad ac economi'r ardal.



Yn ogystal â'r chwaraeon, bydd Gŵyl Caerdydd yn dechrau ar 3 Gorffennaf ac yn dod i ben ar 4 Awst. Bydd rhaglen o ddigwyddiadau wythnosol y Bae yn dechrau dros y Pasg, gan gynnwys yr Ŵyl Fwydydd a Diodydd Celtaidd rhwng Gorffennaf 12fed i'r 14eg. Ymysg y digwyddiadau cyffrous newydd i ddod i'r Bae bydd rasys cychod modur Formula 4 (Mai 17eg - 19eg) a Formula 3 (Gorffennaf 19eg - 21ain).

Uchafbwynt y flwyddyn i lawer, fodd bynnag, fydd Eisteddfod yr Urdd a fydd wedi ei lleoli ym Maes Coopers o Fehefin 3ydd tan yr 8fed.

Am ragor o wybodaeth am raglen digwyddiadau'r brifddinas yn 2002 cysylltwch â Thîm Digwyddiadau'r Cyngor ar 2087 3690 neu Connect 2 Cardiff ar 029 2087 2088.

## GWLEDD I'W CHOFIO

Bydd Gwleddoedd Cymreig poblogaidd Castell Caerdydd yn ailgychwyn dros y Pasg - noson ddelfrydol i unrhyw un sy'n chwilio am leoliad arbennig ar gyfer parti neu rywle i fynd ag ymwelwyr i'r ddinas. Mae'r gwleddoedd yn digwydd yn Neuadd Ganoloesol y Castell, sydd ddim ar agor i'r cyhoedd fel arfer, ac yn ogystal â bwyd a diod blasus mae adloniant a cherddoriaeth sy'n siwr o gynnig noson i'w chofio. Mae'n bosib hefyd fynd ar daith dan arweiniad o gwmpas ystafelloedd ysblennydd y Castell cyn dechrau'r wledd.

Gellir darparu ar gyfer hyd at 104 o westeion ond croesewir grwpiau bach ac unigolion, gan gynnwys plant hŷn sydd yng nghwmni oedolion cyfrifol, ond mae trefnu ymlaen llaw yn hanfodol.

Am ragor o wybodaeth am y gwleddoedd neu i drefnu noswaith ffoniwch Castell Caerdydd ar 2087 8100.

## YMRWYMIAD NATWEST I DWYIEITHRWYDD

Mae NatWest wedi atgyfnerthu ei ymrwymiad tuag at yr iaith Gymraeg trwy gyflwyno bathodynnau enwau Iaith Gwaith er mwyn helpu cwsmeriaid i wybod pa aelodau staff yn y canghennau sy'n siarad Cymraeg.

Mae'r cynllun yn rhan o ddatblygiad diweddaraf Bwrdd yr Iaith ac fe fydd yn ei gwneud hi'n haws i gwsmeriaid ddefnyddio'r Gymraeg wrth drin a thrafod materion ariannol gyda'r Banc. Bydd y cynllun hefyd yn cwmpasu staff y Banc sy'n dysgu'r iaith a bydd y geiriau "Dwi'n dysgu Cymraeg" i'w gweld ar eu bathodynnau.

Mae tua thraean o'r 1100 o staff sy'n gweithio i NatWest yng Nghymru yn siarad Cymraeg ac mae'r Banc yn darparu gwasanaeth dwyieithog cynhwysfawr i'w gwsmeriaid o'i ganolfannau galwadau.

Arwydd arall o ymroddiad y Banc tuag at yr iaith a'r diwylliant Cymraeg yw penodiad Cymro Cymraeg, Aled Williams, yn Rheolwr Cysylltiadau â'r Cyfryngau dros Gymru. Cafodd swydd Aled ei chreu er mwyn bwrw ymlaen â pholisi dwyieithrwydd y Banc.



Lansiwyd y bathodynnau yng Nghangen NatWest Heol y Frenhines gan Rhiannon Glyn o Fwrdd yr Iaith ac Aeres Scourfield o'r Banc.

## GWELD CAERDYDD HEB ADAEL Y TŶ?

Mae canllaw newydd i Gaerdydd ar gael sy'n galluogi pobl i ymweld â phrif atyniadau'r ddinas heb adael y tŷ. Mae'r canllaw ar ffurf CD-ROM y cynhyrchwyd ar gyfer cynhadledd a gynhaliwyd yn y ddinas yn ddiweddar ac mae'n rhoi blas o'r holl atyniadau a gwasanaethau sydd gan Caerdydd i'w cynnig.

Yn ogystal â darganfod mwy am atyniadau Caerdydd - fel y Castell a'r Ganolfan Ddinesig - mae'r ddisg yn adrodd peth o hanes y ddinas, ac yn cynnig syniadau am lefydd i fwyta, yfed a siopa. Mae'r ddisg hefyd yn llawn gwybodaeth am addysg, llywodraeth leol, ystadegau a llawer mwy.

Cynhyrchwyd y ddisg gan Ganolfan Ymchwil Caerdydd a'u gobaith yw bydd y cynnwys o ddiddordeb i bobl ledled y byd yn ogystal ag i drigolion y brifddinas. Am gopi o'r ddisg, yn rhad ac am ddim, cysyllter â'r Ganolfan Ymchwil ar (029) 2087 3219 neu drwy e-bost at m.roberts@cardiff.gov.uk.



## MUDIAD NEWYDD I HYBU'R TRADDODIAD GWERIN

Ers rhai blynyddoedd bellach gwelwyd diddordeb newydd mewn traddodiadau gwerin yng Nghymru, cerddoriaeth werin yn arbennig. Rhan o'r adfywiad hwnnw yw'r mudiad diweddaraf i gael ei sefydlu, trac.

Mae'r mudiad yn bodoli ers dros dair blynedd - ac mae'r amser hwnnw wedi ei dreulio yn paratoi adroddiadau, cynlluniau busnes a cheisiadau am arian. Gwelwyd ffrwyth yr ymdrechion hynny y llynedd pan lwyddwyd i gael arian gan gronfa loteri Cyngor y Celfyddydau a hefyd gan Ymddiriedolaeth Carnegie. Golygodd hynny fod trac bellach yn medru cyflogi dau swyddog rhan amser.

Amcanion trac, yn syml, yw codi ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a hyder mewn cerddoriaeth, canu a dawnsio traddodiadol o fewn Cymru a chodi ymwybyddiaeth y tu allan i Gymru am weithgareddau traddodiadol sy'n digwydd yng Nghymru, a chreu cysylltiadau gyda mudiadau ac unigolion ledled y byd.



Rhan arall o waith trac yw creu rhyw fath o ddolen gyswllt rhwng yr holl weithgareddau sydd eisoes yn bod, a gweithredu fel ffynhonnell wybodaeth. Mae dwy linell ffôn ar gael fydd yn gweithredu fel llinellau cymorth ac yn y cyfamser mae safwe wedi ei chreu, a bydd hynny'n un ffordd i gadw mewn cysylltiad â'r hyn sy'n digwydd.

Os oes gennych chi ddiddordeb yn y maes, os ydych am dderbyn copi gylchgrawn trac (am ddim), os oes diddordeb gennych mewn cael eich hyfforddi, os ydych yn trefnu rhyw weithgarwch yn eich ardal, os ydych yn gwybod am lefydd lle gellir clywed cerddoriaeth draddodiadol, neu os oes gennych syniad i'w gynnig, bydd trac yn falch iawn o glywed gennych. Cysylltwch â Geoff Cripps (Cyfarwyddwr Datblygu), Blwch Post 39, Coed Duon NP12 2ZA, ffôn 01495 230730 neu Arfon Gwilym (Gweinyddwr), Blwch Post 81, Y Trallwm SY21 0WG, ffôn 01938 820197 Safwe: www.trac-cymru.org Cyfeiriad e-bost: trac@trac-cymru.org



*Y ddeuawd werin Toreth o Gaerdydd (Guto Dafis a Gareth Westacott), yn cymryd rhan yng nghyfarfod cyhoeddi trac*

## Y CYNGOR A'R GYMRAEG

Mae'n siŵr fod rhai ohonoch chi'n cofio i Gyngor Sir Caerdydd gynnal arolwg o foddhad cwsmeriaid â'i wasanaethau Cymraeg drwy'r *Dinesydd* rhyw ddwy flynedd yn ôl. Dyma gyfle arall i chi ddweud eich dweud a nodi a ydych chi'n teimlo bod pethau wedi gwella neu waethygu ers yr arolwg diwethaf.

Mae'r Cyngor yn awyddus i glywed eich safbwyntiau chi felly os oes gennych chi rywbeth i'w ddweud am y gwasanaethau a gawsoch yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, llenwch yr holiadur sy'n amgaeëdig a'i dychwelyd i Ganolfan Ymchwil Caerdydd RHADBOST 3474, Neuadd y Sir, Glanfa Iwerydd, Caerdydd CF10 5GZ.

Os oes arnoch angen cymorth wrth lenwi'r ffurflen neu unrhyw wybodaeth am wasanaethau Cymraeg y Cyngor ffoniwch Catherine Jones ar 2087 2527 neu e-bostiwch c.jones3@cardiff.gov.uk

# Mwy o newyddion o'r Eglwysi

### EGLWYS Y CRWYS

Cafwyd cyfnod prysur o weithgareddau yn yr Eglwys yn dilyn troad y flwyddyn. Cafodd y Grŵp Merched gyflwyniad gan Rhiannon Alun Evans ar y testun "Hanner Pwys o Gariad", sef myfyrdod ar arwyddocâd y galon yng nghyd-destun serch. Mrs Babs Evans oedd yn y gadair a chafwyd gair o ddiolch gan Myfanwy Jarman.

Ddydd Sul Ionawr 19eg roedd y gwasanaeth boreol wedi ei lunio gan ddosbarthiadau Ysgol Sul Mrs Ann Brain a Mr David Jones. Y thema oedd yr ymgyrch sydd ar droed i wella safon byw trigolion Bangladesh.

Cynhaliodd Cylch y Chwiorydd a'r Froderfa eu cyfarfodydd ddiwedd mis Ionawr. Mrs Rhiain Phillips a fu'n annerch y gwragedd ar gyfraniad allweddol Abraham Lincoln, Robert E Lee a Jefferson Davis i'r Rhyfel Cartre yn yr Amerig. Mr Bob Roberts oedd siaradwr gwadd y Froderfa a chafwyd orig ddifyr ganddo yn olrhain ei ddiddordeb ym myd y ddrama a hefyd hanes Cymdeithas Ddrama'r Crwys. Bythefnos yn ddiweddarach cafodd y ddwy Gymdeithas gyfle i wrando ar Mrs Meudwen Davies a Mr Emyr Jenkins, y naill yn siarad am ei diddordeb mewn cerddoriaeth, y llall yn olrhain hanes Coleg Cerdd a Drama Cymru.

Ddechrau Chwefror cafodd y Grŵp Merched wahoddiad i ymweld â'r Tŷ Mawr yn yr Eglwys Newydd, cartre Eleri a Brian Rogers. Cafwyd noson hyfryd yn edmygu pensaernïaeth y ty hynafol hwn, yn ogystal â gwrando ar gyfraniad lleisiol ac offerynnol Lois Davies a Iona Jones.

Nos Sadwrn Chwefror 9fed cafwyd cyngerdd mawreddog yn y Capel o dan nawdd y gymdeithas ddiwylliannol. Gwahoddwyd tri chôr ac unigolion i rannu o'u doniau gyda chynulleidfa deilwng iawn. Mwynhawyd gwledd o ganu lleisiol ac offerynnol gan Gôr Merched y Garth, Côr Merched y Rhos a Chôr Plant Caerdydd, yn ogystal ag eitemau unigol gan Siriol Wilde a Dylan Cernyw.

Yn ystod yr hanner tymor trefnodd Mr David Jones daith gerdded y ddwy gamlas yn ardal Casnewydd. Cafodd y cerddwyr ddiwrnod hyfryd a mwynhawyd y gymdeithas ar gyfle i ymestyn ychydig ar y cyhyrau!

## Ar y CYD... yng ngofal Lynne Davies

Mae cwrs Wlpan Tŷ'r Cymry yn gorffen heddiw! Erbyn hyn mae grŵp bach o Gymry Cymraeg (er bod dwy ohonyn nhw'n dod o Loegr!) sy'n gallu sgwrsio, holi, canu a mwynhau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae ychydig o ffordd iddyn nhw fynd eto, ond rwy'n rhagweld bydd dim rhaid i'w plant nhw fynd i ddosbarthiadau oedolion i ddysgu'r iaith. Rwy'n dweud yn aml mai dysgwyr fel y rhai yma yw dyfodol yr iaith Gymraeg; rwy'n nabod gymaint o bobl ifanc a'i rhieni wedi dysgu'r iaith ond hwythau'n Gymry Cymraeg o'r crud.

Mae digon o gyfle i'm dysgwyr fi symud ymlaen yn yr iaith ar hyn o bryd, mae dosbarthiadau estyn, uwch a maestroli o'u blaenau nhw, arholiadau Defnyddio'r Gymraeg a Defnyddio'r Gymraeg Uwch, ac yno cwrs gloywi.

Ac wedyn? Mae'n debyg bod hyn yn ddigon o wersi i rai; byddan nhw'n hollol fodlon eistedd gartre a darllen nofelau, cymryd rhan mewn achlysuron cymdeithasol Cymraeg eu hiaith a mynychu cyfarfodydd CYD i helpu'r rhai sydd yn dal ar y ffordd. Ond os ydych chi eisiau mynd ymlaen, mae ambell i bosibiliad, ac efallai dyma'r amser i ystyried beth nesaf. Gallech chi wneud un o gyrsiau cyfieithu'r brifysgol - mae cyfieithu ar bapur neu, i'r rhai dewr iawn, cyfieithu ar y pryd. Efallai hoffech chi addysgu'r iaith - mae cyrsiau ar gyfer dysgu plant neu oedolion ar gael yn UWIC, ac mae prinder ofnadwy athrawon Cymraeg.

Os ydych chi'n hollol wallgo', fel fi, gallech chi gysegru holl amser sbâr y saith mlynedd nesaf o'ch bywyd i wneud gradd allanol yn Gymraeg trwy Prifysgol Aberystwyth. Mae'r radd yn addas ar gyfer pobl sydd wedi ymddeol neu sy'n gweithio llawn amser, mae darlithoedd ar ddydd Sadwrn (ond nid pob dydd Sadwrn o bell ffordd!) ac mae'n fodd astudio iaith, hanes a llên Cymru - ac ieithoedd Celteg eraill hefyd os yw hyn o ddiddordeb ichi.

Mae llawer o'r myfyrwyr wedi dysgu Cymraeg ac mae cwrs arbennig yn y flwyddyn cyntaf ar gyfer y rhai oedd wedi dysgu'r iaith - mae'n bosibl gwneud y flwyddyn hwn yn unig, ond mae'r rhan fwyaf eisiau mynd ymlaen ar ei hôl. Ydy, mae'n cymryd llawer o amser ac egni, ond fel un sy'n mynd i raddio'r flwyddyn nesaf (gobeithio!) rwy'n gallu dweud bod y cyfan yn fwy na werth chweil.

## Y Border Bach

gan Hwn a Hon



I ni'r Cymry mae cael cenin pedr yn eu blodau yn yr ardd erbyn Mawrth 1af yn rywbeth i'w anelu tuag ato. Eleni mae wedi bod yn eithaf hawdd oherwydd inni gael Ionawr a Chwefror mwyn, ac felly maent yn eu blodau ers rhyw bythefnos. Ond os yw'r gaeaf wedi bod yn hir ac yn oer, yna ychydig bydd allan mewn pryd. Wrth gwrs, mae lleoliad y planhigion yn bwysig. Os ydynt mewn llecyn heulog yna mae gwell gobaith nag os ydynt mewn cysgod.

Y ffordd i oresgyn y broblem a chael blodau allan ar Ddydd Gwyl Dewi yw tyfu mathau sydd i fod i flodeuo yn y gwanwyn cynnar, h.y. yn Chwefror. Rhan amlaf mae hyn yn golygu tyfu'r rhai byrion. Mae nifer ohonynt ar gael, e.e. 'February Gold' a 'February Silver'. Y mae yna rhai talach hefyd fel 'Spellbinder' a all flodeuo mor gynnar ag Ionawr.

Mae'r daffodil traddodiadol fel 'King Alfred' yn blodeuo'n ddiweddarach a gellwch fentro y funud y bydd wedi agor fe ddaw storm o wynt a glaw o'u bwrw i gyd i lawr. Mae'n digwydd bron yn ddi-ffael bob gwanwyn. Felly beth am dyfu y rhai byr ar ddechrau'r gwanwyn a fydd yn llai tebygol o gael eu chwythu drosodd, ac yna mynd am fath sy'n blodeuo tua mis Ebrill gan obeithio bydd y tywydd gwaethaf drosodd erbyn hynny. Rwy'n hoff iawn o 'Mount Hood' sy'n dechrau'n felyn golau ac yn troi'n wyn gydag amser.

Mae teulu'r narcissus yn un helaeth. Gallwch gael rhai yn eu blodau o Ragfyr tan Mehefin bron. Gallwch gael sawl blodyn ar un coes, rhai lle mae'r canol wedi ei rannu, rhai a phetalau dwbl neu rai pinc golau hyd yn oed. Ond i fod yn onest, gwell gennyf y rhai sy'n dal i edrych fel cenin pedr!

Un peth arall cyn gorffen - cofiwch adael y dail yn eu lle am o leiaf 6 wythnos ar ôl blodeuo er mwyn iddynt gael cyfle i adeiladu eu nerthy yn ôl. Rhowch ychydig o wrtaith o'u cwmpas ac fe gewch well sioe eto flwyddyn nesaf.

## YR AWR HAPUS

Ydych chi wedi clywed am neu wedi talu ymweliad â'r Awr Hapus, sef clwb siarad Cymraeg sy'n cyfarfod am 11 o'r gloch bob bore Llun yn nhafarn Gwesty'r Pentref yn Coryton? Mae'r aelodau brwd, sydd wedi bod yn cwrdd ers mis Tachwedd, yn mwynhau'r cyfle i ymarfer siarad Cymraeg, dysgu geirfa newydd - o'r gogledd yn ogystal â'r de! - a chymdeithasu ar yr un pryd.

Meddai Gwilym Dafydd : "Beth sy'n digwydd yn ystod yr awr hapus, heblaw mwynhau diod yn fuan wedi un ar ddeg o'r gloch? Wel, rydym yn sicr wedi gwneud ein siâr o ganu yn ystod y misoedd diwethaf ac mae cychgrawn Cwmni Acen wastad yn derbyn croeso mawr. Rydym yn defnyddio rhifyn i gaeaf a'r gwanwyn ac wedi cael ambell i sesiwn o ddarllen a deall. A phwy sy'n dod ar fore Llun? Wel, ceir rhai dysgwyr profiadol megis Barbara ac Arwyn, ond ar y llaw arall ceir pobl fel Pam, June a Roy sy'n ddechreuwyr, ond sy'n fodlon mentro a dysgu geiriau newydd pob wythnos."

Mae'r grŵp yn diolch i Westy'r Pentref am ei gefnogaeth ymarferol ac mae croeso cynnes i unrhyw un hoffai ymuno â'r hwyl yno ar fore Llun.



# *Mae gennym ddatganiad i'w wneud... YN GYMRAEG*

Pleser gan Fanc HSBC yw cychwyn cyhoeddi cyfriflenni Cymraeg, o fis Medi 2001.

I gofrestru am y gwasanaeth Cymraeg hwn, ewch i'ch cangen leol neu ffoniwch 08457 030304.

HSBC

EICH BYD O WASANAETHAU ARIANNOL

*Issued by HSBC Bank plc*

el1

ELIN HAF HUWS
AROMATHERAPI SYMUDOL
I.I.H.H.T DIP N.MED BA HONS

**TRINIAETH AROMATHERAPI YM MHREIFATRWYDD EICH CARTREF**

Dull therapiwtig o dylino'r corff gydag olewau wedi eu tynnu o flodau, perlysiau, rhisgl, a ffrwythau sydd yn helpu i wella'r corff, a gwaredu tensiynau emosiynol a meddyliol.

Os am apwyntiad neu fwy o fanylion, cysylltwch ag:
ELIN HAF HUWS ar (029) 2025 6154

## YSGOL GYMRAEG COED Y GOF

*Oes gennych awr neu ddwy yr wythnos i helpu plant i ddarllen?*

Mae athrawon gweithgar Ysgol Coed Y Gof yn edrych am wirfoddolwyr i helpu canran uchel o blant sy'n dod o gartrefi di-Gymraeg i ddarllen.

Cysylltwch â'r Cydlynydd Iaith, Rhinedd Jones ar 02920 564585

*CEWCH GROESO MAWR*

**AEGIS YMGYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL CYF**

***Am gyngor ariannol annibynnol cysylltwch â***

## Geraint B. Llewelyn

MLIA (DIP)

**291 FFORDD CYNCOED, CYNCOED, CAERDYDD, CF23 6PA**
**FFÔN: (029) 20228223 FFACS: (029) 20761309**
E-bost: aegis-ifa@supanet.com

AELOD O DBS RHEOLAETH ARIANNOL CCC
A ORUCHWILIR GAN AWDURDOD BUDDSODDI PERSONOL

## TRYDANWR

gyda dros 20 mlynedd o brofiad

Ailweirio, gosod systemau larwm a chawodydd

*PRISIAU RHESYMOL*

Ffoniwch
**Caerwyn Davies**
ar **029 20868208**
neu **07967 558664**

## ~ AR WERTH ~

Telyn Pilgrim Clarsach
mewn cyflwr ardderchog

Ffoniwch
**029 20 311340**



# CELTES

Profwch hud a rhamant y chwedlau Cymreig. Gadewch i ledrith y duwiesau Celtaidd eich swyno. Seiliwyd cynnyrch Celtes ar ferched chwedlonol Cymru – merched prydferth, merched arwrol, merched hudolus. Mynnwch ran o'r cynfyd Celtaidd.

Mae holl gynnyrch Celtes wedi ei wneud â llaw gan grefftwyr yng Nghymru.

**Anrhegion hudol i'r Geltes gyfoes.**

**Mae anrhegion Celtes ar gael o:**
**Ogof, 28 Castle Arcade, Caerdydd**
**Ffôn: 029 20226896**

**www.celtes.co.uk**

*Arbedwch 10% oddiar gynnyrch Celtes wrth gyflwyno'r hysbyseb hon yn Ogof (Mis Mawrth yn unig).*

Cegin Cymru
Welsh Kitchen

## Dewch i brofi cynnyrch Cegin Cymru

Mae gan Gegin Cymru pob math o ddanteithion i dynnu dŵr o'ch dannedd. Cocos a bara lawr o draethau'r gorllewin, caws fferm a chacennau cartref, gwin, seidr a dŵr glân gloyw. Popeth ar gyfer te yn y parlwr gorau, swper cegin fferm neu ginio cywain gwair. Profwch y gegin Gymreig. Rwy'n siŵr y cewch flas arni.

***Cegin Cymru - bwydydd traddodiadol Cymru ar eu gorau.***

**£100 am ddim!**
(trwy gardiau teyrngarwch)

**Mae bwydydd Cegin Cymru ar gael o Ogof, 28 Castle Arcade, Caerdydd (drws nesaf i'r Welsh Tartan Shop)**
**Ffôn: 029 20226896**

**www.bwyd-cymru.com**

LEEKES
The Out of Town Department Store

**www.s4c.co.uk**



Agorwch dipyn o gil y drws

**04 WAL**
**8.00PM**
**BOB NOS FERCHER**
**YN DECHRAU 6 MAWRTH**
**TRANSL888/889**

**S4C**

**CYFRES NEWYDD**